



Prifysgol
Abertawe
Swansea
University

ADRODDIAD CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL



[swansea.ac.uk/cy/y-brifysgol/swyddi-a-gweithio-yn-abertawe/
cydraddoldeb-ac-amrywiaeth/ein-gwaith/polisïau](https://swansea.ac.uk/cy/y-brifysgol/swyddi-a-gweithio-yn-abertawe/cydraddoldeb-ac-amrywiaeth/ein-gwaith/polisïau)

| | |
|--|-----------|
| CROESO | 3 |
| TROSOLWG O'R BRIFYSGOL | 7 |
| OEDRAN | 8 |
| ANABLEDD | 10 |
| HIL | 12 |
| RHYW | 14 |
| CREFYDD A CHRED | 17 |
| CYFEIRIADEDD RHYWIOL | 21 |
| AILBENNU RHYWEDD | 23 |
| PRIODAS A PHARTNERIAETH SIFIL | 25 |
| BEICHIOWRHYDD A MAMOLAETH | 27 |
| ASESIADAU EFFAITH | 29 |
| DATA MYFYRWYR 2020/2021 | 30 |
| DATHLU AMRYWIAETH | 31 |
| ATODIAD 1 CYNNYDD YN ERBYN Y CYNLLUN | |
| CYDRADDOLDEB STRATEGOL EBRILL 2020-2024 | 32 |
| MANYLION CYSWLLT Y TÎM CYDRADDOLDEB | 36 |

Fel sefydliad y sector cyhoeddus, mae dyletswydd gyfreithiol gan Brifysgol Abertawe i gyhoeddi ein data monitro cydraddoldeb. Fodd bynnag, rydym yn ymrwymedig i adlewyrchu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y sefydliad cyfan. Prif nod yr adroddiad hwn yw sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ond defnyddir y cynnwys hefyd i lywio blaenoriaethau'r Brifysgol o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb.

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau cydraddoldeb a thegwch i bawb, a'n nod yw dangos hyn drwy ein gweithredoedd, yn ogystal â thrwy ein hymrwymiaidau. Amrywiaeth gyfoethog ein cymuned o gydweithwyr a myfyrwyr sydd wrth wraidd ein llwyddiant fel Prifysgol. Mae 2020/21 wedi bod yn flwyddyn heriol oherwydd pandemig COVID-19, ac mae llawer ohonom wedi wynebu anawsterau personol a phroffesiynol. Hoffwn fynegi fy ngwerthfawrogiad diffuant i'n cydweithwyr ym mhob rhan o'r Brifysgol sydd wedi cydweithio o dan bwysau i barhau i gyflawni lefelau rhagorol o wasanaeth a chymorth i gwsmeriaid. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi amlygu pwysigrwydd sicrhau ein bod yn parhau i wneud cynnydd yn erbyn ein hamcanion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb. Hoffwn ddiolch i'n holl gydweithwyr am eu cyfraniad gwerthfawr at ddatblygu'r agenda cydraddoldeb.

CAMAU CADARNAOL YMLAEN

- Er gwaethaf yr heriau sydd ynghlwm wrth weithio drwy bandemig byd-eang, rydym yn hynod falch o'r camau cadarnhaol ymlaen rydym wedi'u cymryd eleni tuag at gyflawni ein hamcanion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynwysoldeb.
- Rydym yn parhau i fod yn rhagweithiol wrth ymgymryd â gweithgareddau amrywiol i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiâu ac, o ganlyniad, gostyngodd ein bwlch canolrifol 2.6% i 11.1% a gostyngodd ein bwlch cymedrig 1% i 18.4%. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, gwnaethom wrthod yn gwrtais y cynnig i estyn y dyddiad cau statudol am gyflwyno adroddiad (oherwydd y pandemig) ac yn hytrach, dewisom adrodd fel arfer er mwyn cynnal ein ffocws a'n hymrwymiad i gau'r bwlch.
- Yn ystod 2021, enillodd dwy Ysgol arall eu dyfarniad lefel Efydd Athena Swan am y tro cyntaf - Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton a Choleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau. O ganlyniad, ochr yn ochr â dyfarniad arian y sefydliad, mae pob un o'n hadrannau academaidd cymwys wedi ennill dyfarniad Athena Swan, sy'n golygu bod pedwar dyfarniad arian a saith dyfarniad efydd gan y Brifysgol.

- Penodwyd tri o'n cydweithwyr yn aelodau o banel adolygu Athena Swan. Bydd hyn yn ein cynorthwyo ymhellach yn ein hymdrechion i wella cydraddoldeb rhwng y rhywiau ar draws y Brifysgol.
- Mae canran ein cydweithwyr BAME (Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig), sef 13.2%, yn parhau'n sylweddol uwch na meincnod y sector addysg uwch yng Nghymru, sef 8% (Adroddiad Ystadegol Advance HE 2020), ac mae cyfran ein cydweithwyr BAME yn y gweithlu wedi cynyddu 5.9% dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r ffigurau eleni'n dangos y gyfran uchaf o ymgeiswyr BAME sydd wedi'u recriwtio hyd yn hyn.
- Mae'r gyfradd lwyddiant o ymgeiswyr sy'n datgan anabledd yn uwch na'r ymgeiswyr nad ydynt yn datgan anabledd. Mae hyn yn ein sicrhau ein bod yn gweithio'n galed i ddileu rhwystrau a allai beri anfantaes i'r grŵp hwn o gydweithwyr.
- Mae nifer ein cydweithwyr LGB+ wedi parhau i gynyddu, o 3.7% i 4.2%, gan barhau'n uwch na meincnod y sector addysg uwch yn y DU o 2.6% (Adroddiad Ystadegol Advance HE 2020). Canran y cydweithwyr sy'n nodi bod eu rhywedd yn wahanol i'w rhyw a gofrestrwyd adeg geni yw 0.2% sy'n unol â meincnod y DU (Adroddiad Ystadegol Advance HE 2020). Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu'n gadarnhaol ein hymrwymiad i'r agendâu hyn ar ôl i ni sicrhau ein lle yn y 47^{ain} safle ym mynegai Stonewall o'r 100 o Gyflogwyr Gorau.
- Eleni, unwaith eto, llwyddom i gyflawni cyfradd gwblhau o 99% ar gyfer Adolygiadau Datblygiad Perfformiad (PDR). Yn ystod cyfnod digynsail o ansicrwydd ac aflonyddu, roeddem yn teimlo ei bod hi'n bwysicach nag erioed bod gan ein holl gydweithwyr gyfle i gael sgysiau ystyrlon am dwf personol, waeth beth yw eu cefndir, eu credoau neu eu nodweddion gwarchoddedig personol.
- Mae ein mentrau galluogi perfformiad yn parhau i gefnogi dilyniant gyrfa ein cydweithwyr yn weithredol, yn enwedig ein hacademyddion benywaidd sydd, yn hanesyddol, wedi bod yn llai tebygol o wneud cais am ddyrchafiad. Dros gyfnod o chwe blynedd, gwelwyd cynnydd o 38% mewn ymgeiswyr llwyddiannus yn gyffredinol, sy'n cynnwys cynnydd o 21% mewn ymgeiswyr benywaidd llwyddiannus. O ganlyniad, benywod oedd 44% o'r ymgeiswyr llwyddiannus eleni. Mae ein data yn dangos cynnydd o 33% yng nghyfanswm yr academyddion benywaidd a gafodd eu dyrchafu ar bob lefel, o Ddarlithwyr i Athrawon, rhwng 2015 a 2020. Rydym hefyd wedi gweld cynnydd sylweddol yng nghanran gyffredinol (+11%) yr athrawon benywaidd yn ein gweithlu, sydd wedi cynyddu o 13% yn 2014 i 24% yn 2020/21.

- Rydym wedi parhau i fonitro strwythur llywodraethu ein Cyngor ac mae'n bleser gennym nodi mai menywod oedd 55% o aelodau'r Cyngor yn 2021, o'i gymharu â 25% yn 2013 ac, am y tro cyntaf eleni, roedd canran aelodau'r Cyngor o gefndiroedd BAME yn debyg i ganran y cydweithwyr BAME yn y Brifysgol. Yn ogystal, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol gydag Uwch-dîm Arweinyddiaeth y Brifysgol y mae traean o'i aelodau'n fenywaidd. Mae gwaith yn mynd rhagddo yn y maes hwn i weithio tuag at gynrychiolaeth gyfartal rhwng y rhywiau a chynrychiolaeth BAME hefyd.
- Mae 100% o gydweithwyr gwasanaethau proffesiynol yn y Cyfarwyddiaethau wedi cwblhau'r hyfforddiant Rhagfarn Ddiarwybod a'r hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynwysoldeb.
- Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd ar draws y Brifysgol, o'r 12 a nodwyd y llynedd i'r 157 a nodir eleni, sy'n dangos dealltwriaeth uwch o bwysigrwydd sicrhau arferion cynhwysol.
- Mae gan y Brifysgol rwydwaith gweithredol iawn o staff sy'n ofalwyr ac mae'n parhau i ehangu bob blwyddyn. Mae'r Rhwydwaith yn cwrdd am awr bob mis ac mae'n ffynhonnell cymorth a chyngor i staff â chyfrifoldebau gofalu ar draws y Brifysgol. Ni oedd y sefydliad addysg uwch cyntaf yng Nghymru i ddod yn aelod o Gyflogwyr i Ofalwyr. Mae'r aelodaeth hon yn cynnig mynediad at amrywiaeth o adnoddau sy'n ein helpu i gefnogi ein staff sy'n cydbwysu gwaith â gofal.

DATHLU AMRYWIAETH

Yn y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi dathlu nifer o ddigwyddiadau amrywiaeth yn rhithwir, gan sicrhau bod ein cydweithwyr yn cadw mewn cysylltiad â'i gilydd wrth i ni weithio'n rhithwir i raddau helaeth. Denodd ein digwyddiadau rhithwir fwy o gyfranogwyr nag yn y blynyddoedd blaenorol, gan ein helpu i gyrraedd cynulleidfa ehangach. Ymhlith y digwyddiadau a gynhaliwyd roedd: Diwrnod Cofio'r Holocaust; Mis Hanes LGBT+; Diwrnod Rhyngwladol y Menywod; Mis Hanes Pobl Dduon (gydag amrywiaeth o siaradwyr gan gynnwys o'r mudiad Mae Bywydau Du yn Bwysig); Diwrnod Rhyngwladol Pobl ag Anableddau'r Cenhedloedd Unedig, yn ogystal ag amrywiaeth o ddigwyddiadau rhyng-ffydd. Trefnwyd llawer o'r dathliadau a'r digwyddiadau hyn mewn partneriaeth agos ac ar y cyd ag Undeb y Myfyrwyr ac roeddent yn cynnwys staff a myfyrwyr.

YN EDRYCH I'R DYFODOL


Gwyddom fod gennym lawer o waith i'w wneud ym mhob maes ac, yn benodol, bydd angen i ni ganolbwyntio ar gynyddu cyfraddau llwyddiant ein hymgeiswyr BAME yn y prosesau recriwtio a dyrchafu. Byddwn hefyd yn canolbwyntio ein hymdrechion ar gynyddu nifer ein cydweithwyr BAME mewn swyddi ar lefel uwch. Byddwn yn mynd i'r afael â'r meysydd hyn a meysydd allweddol eraill a nodir drwy ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024](#). Yn ogystal â hyn, buom yn cyfranogi'n ddiweddar yn y Prosiect Cydweithredol Mynediad a Llwyddiant Hil i wella cydraddoldeb hiliol mewn addysg uwch. Cynlluniwyd y rhaglen wella Cymru gyfan er mwyn gwella cydraddoldeb hiliol mewn addysg uwch drwy gyfres arloesol o weithdai, setiau cynllunio gweithredu ac ymgynghori. Rydym yn gweithio i lunio cynllun gweithredu cynhwysfawr ar hil yn y flwyddyn i ddod.

Gyda thirwedd sy'n newid yn gyson a chan ystyried bod effaith hirdymor COVID-19 ar gydweithwyr a myfyrwyr yn anhysbys o hyd i raddau helaeth, ein nod yw sicrhau bod Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynwysoldeb yn rhan annatod o'r penderfyniadau craidd rydym yn eu gwneud fel prifysgol. Ein nerth yw amrywiaeth ein cydweithwyr a'n myfyrwyr, ac edrychaf ymlaen at arwain ein gwaith ar yr Agenda Cydraddoldeb yn y flwyddyn i ddod.

Dirprwy Is-ganghellor Martin Stringer

Cipolwg ar ein 4,079 o gydweithwyr

OEDRAN CYFARTALOG



42


Gwryw: 43
Benyw: 42

AILBENNU RHYWEDD

| | % | 👤 |
|-------------------------------|------|-------|
| Hunaniaeth rhywedd yr un peth | 77.7 | 3,171 |
| Ddim am ddweud | 19.2 | 784 |
| Anhysbys | 2.8 | 115 |
| Hunaniaeth rhywedd yn wahanol | 0.2 | 9 |

ABSENOLDEB RHIANT

| | | |
|----|-------|-------------------|
| 87 | 68.5% | Mamolaeth |
| 38 | 29.9% | Tadolaeth/Partner |
| 2 | 1.6% | Mabwysiadu |



RHYW



54.7% Benyw 2,230

45.3% Gwryw 1,849

ACADEMAIDD

43% Benyw


57% Gwryw

GWASANAETHAU PROFFESIYNOL

63.4% Benyw

36.6% Gwryw

HIL



81.8% 3,336 Gwyn

13% 532 BAME

2.7% 111 Ddim am ddweud

2.5% 100 Anhysbys

4% 164 Asiaidd

4% 164 Grŵp ethnig arall
(gan gynnwys Arabaidd a Sipsiwn/Teithiwr)

2.5% 100 Tseineaidd

1.5% 60 Cymysg

1.1% 44 Du

ANABLEDD

319 (7.8%)

o'r staff wedi datgan bod ganddynt anabledd

3,531 (86.6%)

Ddim yn anabl

117 (2.9%)

Ddim am ddweud


CYFEIRIADEDD RHYWIOL

| | % | 👤 |
|--------------------|------|-------|
| Heterorywiol | 69.6 | 2,840 |
| Ddim am ddweud | 23.4 | 956 |
| LGB+ | 4.2 | 170 |
| Deurywiol | 2.0 | 81 |
| Dyn hoyw | 1.0 | 50 |
| Menyw hoyw/lesbiad | 0.8 | 32 |
| Arall | 0.2 | 7 |
| Anhysbys | 2.8 | 113 |

PRIODAS A PHARTNERIAETH SIFIL

| | % | 👤 |
|--------------------|------|-------|
| Priod | 44.8 | 1,829 |
| Sengl | 26.6 | 1,087 |
| Cyd-fyw | 9.5 | 386 |
| Ddim am ddweud | 9.1 | 373 |
| Anhysbys | 5.0 | 203 |
| Wedi ysgaru | 2.4 | 98 |
| Wedi gwahanu | 0.9 | 35 |
| Arall | 0.7 | 27 |
| Partneriaeth Sifil | 0.6 | 26 |
| Gweddw | 0.4 | 15 |

CREFYDD



CYFANSODDIAD Y GWEITHLU

| | | |
|-----------------|-------|-------------|
| 36-40 | 15.6% | 638 |
| 31-35 | 14.6% | 597 |
| 41-45 | 13.0% | 530 |
| 46-50 | 12.7% | 520 |
| 51-55 | 11.1% | 454 |
| 26-30 | 10.0% | 406 |
| 25 ac iau | 8.6% | 351 |
| 56-60 | 8.5% | 345 |
| 61-65 | 4.0% | 162 |
| 66+ | 1.9% | 76 |
| Cyfanswm | | 4079 |

OEDRAN CYFARTALOG

| | |
|-------------|----|
| Benywod | 42 |
| Gwrywod | 43 |
| Cyfartaledd | 42 |

Mae'r categorïau oedran a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn cyd-fynd â chategorïau oedran HESA.

Mae oedran cyfartalog benywod (42) a gwrywod (43) yn y gweithlu wedi aros yr un peth â'r llynedd. Fodd bynnag, mae'r oedran cyfartalog cyffredinol wedi gostwng ychydig o 43 i 42 oed.

Mae canran y cydweithwyr 25 oed ac iau sy'n gweithio yma, sef 8.6%, yn uwch o'i chymharu â chyfartaledd y sector addysg uwch yng Nghymru, sef 4.8%. Mae arweinwyr myfyrwyr Ymgyrraedd yn Ehangach a gweithwyr ym maes COVID-19 (Profwyr Asymptomatig) yn cyfrif am 50% o gydweithwyr yn y grŵp oedran hwn.

Mae 56% o'r gweithlu rhwng 31 a 50 oed.

RECRIWTIO

Swyddi a hysbysebwyd 645

CEISIADAU FESUL OEDRAN

| | | |
|-----------|-------|------|
| 25 ac iau | 23.2% | 1534 |
| 26-30 | 20.7% | 1370 |
| 31-35 | 18.6% | 1230 |
| 36-40 | 13.7% | 907 |
| 41-45 | 8.6% | 569 |
| 46-50 | 5.8% | 381 |
| 51-55 | 4.7% | 312 |
| 56-60 | 2.5% | 166 |
| 61-65 | 1.1% | 71 |
| Anhysbys | 0.9% | 59 |
| 66+ | 0.1 | 9 |

Ceisiadau a dderbyniwyd 6608

CYFRADD LWYDDIANT YMGEISWYR (O FEWN EU GRŴP EU HUNAIN)

| | | |
|-----------|-------|-----|
| 25 ac iau | 20.8% | 319 |
| Anhysbys | 20.3% | 12 |
| 26-30 | 8.8% | 120 |
| 61-65 | 8.5% | 6 |
| 51-55 | 8.0% | 25 |
| 31-35 | 7.3% | 90 |
| 56-60 | 7.2% | 12 |
| 36-40 | 6.2% | 56 |
| 41-45 | 5.8% | 33 |
| 46-50 | 5.5% | 21 |
| 66+ | 0% | 0 |

Cyfradd Lwyddiant Gyffredinol 10.5% 694

Mae cyfradd lwyddiant gyffredinol ymgeiswyr wedi gostwng o 14.4% i 10.5%. Hysbysebwyd llai o swyddi a derbyniwyd llai o geisiadau na'r llynedd. Gwelwyd gostyngiad hefyd yn nifer yr ymarferion hysbysebu a recriwtio i'r un rolau ar yr un pryd o'i gymharu â'r llynedd.

Gwelwyd y gostyngiad hwn ym mhob categori oedran ac mae patrwm y ceisiadau fesul oedran yn debyg i'r llynedd.

Derbyniwyd y ganran fwyaf o geisiadau gan ymgeiswyr 25 oed ac iau (23.2% o'r holl geisiadau).

HYFFORDDIANT

Cyrsiau ystafell ddosbarth a ddarparwyd **245**

HYFFORDDIANT YSTAFELL DDOSBARTH

| | | |
|-----------------|-------|-------------|
| 31-35 | 17.6% | 473 |
| 36-40 | 15.8% | 426 |
| 46-50 | 13.6% | 365 |
| 51-55 | 12.8% | 344 |
| 41-45 | 12.5% | 337 |
| 26-30 | 11.5% | 308 |
| 56-60 | 7.7% | 207 |
| 61-65 | 3.9% | 105 |
| 25 ac iau | 3.7% | 99 |
| 66+ | 0.9% | 24 |
| Cyfanswm | | 2688 |

HYFFORDDIANT AR-LEIN

| | | |
|-----------------|-------|--------------|
| 31-35 | 15.7% | 1809 |
| 36-40 | 15.5% | 1779 |
| 26-30 | 13.7% | 1572 |
| 46-50 | 12.2% | 1400 |
| 51-55 | 11.8% | 1363 |
| 41-45 | 11.8% | 1359 |
| 56-60 | 8.3% | 950 |
| 25 ac iau | 6.7% | 772 |
| 61-65 | 3.3% | 380 |
| 66+ | 1.1% | 130 |
| Cyfanswm | | 11514 |

Darparwyd llai o gyrsiau mewn ystafell ddosbarth yn ystod y cyfnod adrodd o'i gymharu â'r llynedd (424) oherwydd effeithiau'r pandemig a gweithio gartref. Mae nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant ar-lein wedi cynyddu'n sylweddol ers y llynedd (2056), eto oherwydd y newid i weithio gartref a chyflwyno hyfforddiant gorfodol ar-lein newydd, megis y pecyn ar-lein adfer ar ôl COVID-19 a chyllid troseddol.

Mae dosbarthiad oedran y cydweithwyr sy'n cymryd rhan ym mhob math o hyfforddiant yn debyg i'r llynedd.

YMADAWYR

| | | |
|-----------------|-------|------------|
| 25 ac iau | 21.3% | 170 |
| 61-65 | 12.7% | 101 |
| 26-30 | 12.3% | 98 |
| 31-35 | 11.7% | 93 |
| 56-60 | 9.8% | 78 |
| 36-40 | 8.6% | 69 |
| 51-55 | 7.0% | 56 |
| 41-45 | 5.8% | 46 |
| 46-50 | 5.6% | 45 |
| 66+ | 5.3% | 42 |
| Cyfanswm | | 798 |

Mae'r canrannau uchaf o ymadawyr yn y grŵp 25 oed ac iau. Mae 61% o swyddi'r grŵp 25 oed ac iau yn rhai cyfnod penodol megis Myfyrwyr Arddangos a myfyrwyr sy'n Arweinwyr Ymgynraedd yn Ehangach, swyddi a lenwir gan ein myfyrwyr yn bennaf. Mae nifer yr ymadawyr wedi gostwng o 844 y llynedd i 798 eleni.

CWYNIION A DISGYBLU

Mae'r data am gwynion a disgyblu'n dangos nifer yr achosion yn ystod y cyfnod adrodd fesul nodwedd warchoddedig yr unigolyn.

CWYNIION

| | | |
|-----------------|-----|----------|
| 25-40 | 45% | 4 |
| 40-55 | 33% | 3 |
| 55+ | 22% | 2 |
| Cyfanswm | | 9 |

DISGYBLU

| | | |
|-----------------|-----|-----------|
| 25-40 | 33% | 4 |
| 40-45 | 67% | 8 |
| Cyfanswm | | 12 |

Yn ystod y cyfnod adrodd, cyflwynwyd 9 cwyn, a chynhaliwyd 12 achos disgyblu.

O ran yr achosion disgyblu, roedd 33% ohonynt (4) yn y grŵp oedran 25-40, 67% (8) yn y grŵp 40-55. O'r cwynion, roedd 45% (4) yn y grŵp oedran 25-40, 33% (3) yn y grŵp 40-55 a 22% (2) yn y grŵp 55+.

Anabledd

CYFANSODDIAD Y GWEITHLU

| | | |
|-----------------|-------|-------------|
| Ddim yn anabl | 86.6% | 3531 |
| Anabl | 7.8% | 319 |
| Ddim am ddweud | 2.9% | 117 |
| Anhysbys | 2.7% | 112 |
| Cyfanswm | | 4079 |

Datganodd 7.8% o gydweithwyr anabledd o'i gymharu â 7.4% y llynedd, sy'n awgrymu cynnydd mewn hyder wrth ddatgelu'r wybodaeth hon. Mae hyn yn uwch na meincnod y DU, sef 5.3% a meincnod Cymru, 6.1% (Adroddiad Ystadegol Advance HE 2020).

O'r cydweithwyr a ddatganodd anabledd, nododd 27% anhawster dysgu penodol, megis dyslecsia, dyspracsia etc; datganodd 18% salwch neu gyflwr iechyd hirdymor a nododd 18% gyflwr iechyd meddwl.

YMADAWYR

| | | |
|-----------------|-------|------------|
| Ddim yn anabl | 77.9% | 622 |
| Anabl | 11.3% | 90 |
| Anhysbys | 8.6% | 69 |
| Ddim am ddweud | 2.1% | 17 |
| Cyfanswm | | 798 |

Mae canran yr ymadawyr a chanddynt anabledd, 11.3%, yn uwch na chanran y cydweithwyr a ddatganodd anabledd, 7.8%. Cynigiodd y Brifysgol Gynllun Ymadael yn Wirfoddol yn ystod 2020. Cyfrannodd y rhai a adawodd y Brifysgol drwy'r cynllun hwn at y cynnydd yng nghanran y cydweithwyr ag anabledd a adawodd eleni.

RECRIWTIO

Swyddi a hysbysebwyd **645**

CEISIADAU YN ÔL ANABLEDD

| | | |
|--------------------------------|-------|-------------|
| Ddim yn anabl | 90.7% | 5991 |
| Anabl | 9.3% | 617 |
| Ceisiadau a dderbyniwyd | | 6608 |

CYFRADD LWYDDIANT YMGEISWYR (O FEWN EU GRŴP EU HUNAIN)

| | | |
|--------------------------------------|--------------|------------|
| Anhysbys | 20.3% | 12 |
| Anabl | 13.3% | 82 |
| Ddim yn anabl | 10.1% | 584 |
| Ddim am ddweud | 9.1% | 16 |
| Cyfradd Lwyddiant Gyffredinol | 10.5% | 694 |

Mae cyfradd lwyddiant gyffredinol ymgeiswyr wedi gostwng o 14.4% i 10.5%. Hysbysebwyd llai o swyddi a derbyniwyd llai o geisiadau na'r llynedd. Mae nifer yr ymarferion hysbysebu a recriwtio i rolau ar yr un pryd wedi gostwng hefyd eleni. Mae nifer yr ymgeiswyr a ddatgelodd anabledd, 13.3%, yn uwch na'r ffigur ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt yn datgan anabledd, sef 10.1% ac yn debyg i'r ganran y llynedd.

Anabledd

HYFFORDDIANT

Cyrsiau ystafell ddosbarth a ddarparwyd **245**

HYFFORDDIANT YSTAFELL DDOSBARTH

| | | |
|-----------------|-------|-------------|
| Ddim yn anabl | 86.9% | 2337 |
| Anabl | 9.2% | 247 |
| Ddim am ddweud | 2.6% | 71 |
| Anhysbys | 1.2% | 33 |
| Cyfanswm | | 2688 |

HYFFORDDIANT AR-LEIN

| | | |
|-----------------|-------|--------------|
| Ddim yn anabl | 86.3% | 9936 |
| Anabl | 8.7% | 1006 |
| Ddim am ddweud | 2.7% | 313 |
| Anhysbys | 2.2% | 259 |
| Cyfanswm | | 11514 |

Darparwyd llai o gyrsiau mewn ystafell ddosbarth yn ystod y cyfnod adrodd o'i gymharu â'r llynedd (424) oherwydd effeithiau'r pandemig a gweithio gartref. Mae nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant ar-lein wedi cynyddu'n sylweddol ers y llynedd (2056), eto oherwydd y newid i weithio gartref a chyflwyno hyfforddiant gorfodol ar-lein newydd megis y pecyn ar-lein adfer ar ôl COVID-19 a chyllid troseddol.

O'r rhai a gwblhaodd hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth, nododd 9.2% fod anabledd ganddynt, sy'n uwch na chanran y cydweithwyr sydd wedi datgelu anabledd yn y Brifysgol (7.8%).

O'r rhai a gwblhaodd hyfforddiant ar-lein, nododd 8.7% fod anabledd ganddynt, sydd eto'n uwch na chanran y cydweithwyr yn y Brifysgol sydd wedi datgan anabledd (7.8%).

CWYNION A DISGYBLU

Mae'r data am gwynion a disgyblu'n dangos nifer yr achosion yn ystod y cyfnod adrodd fesul nodwedd warchoddedig yr unigolyn.

CWYNION

| | | |
|-----------------|-----|----------|
| Ddim yn anabl | 67% | 6 |
| Anabl | 33% | 3 |
| Cyfanswm | | 9 |

DISGYBLU

| | | |
|-----------------|------|-----------|
| Ddim yn anabl | 83% | 10 |
| Ddim am ddweud | 8.5% | 1 |
| Anabl | 8.5% | 1 |
| Cyfanswm | | 12 |

Yn ystod y cyfnod adrodd, cyflwynwyd 9 cwyn a chynhaliwyd 12 achos disgyblu.

O'r cwynion, nododd 67% (6) nad oedd anabledd ganddynt a 33% (3) fod ganddynt anabledd.

O ran yr achosion disgyblu a gynhaliwyd, nododd 83% (10) nad oedd anabledd ganddynt, roedd anabledd gan 8.5% (1), a dewisodd 8.5% (1) beidio â dweud.

CYFANSODDIAD Y GWEITHLU

| | | |
|--|------------|-------------|
| Gwyn | 81.8% | 3336 |
| Asiaidd | 4% | 164 |
| Grŵp ethnig arall (gan gynnwys Arabaidd a Sipsiwn/Teithiwr) | 4% | 164 |
| Ddim am ddweud | 2.7% | 111 |
| Tsieineaidd | 2.5% | 100 |
| Anhysbys | 2.5% | 100 |
| Cymysg | 1.5% | 60 |
| Du | 1.1% | 44 |
| Cyfanswm BAME | 13% | 532 |
| Cyfanswm | | 4079 |

Mae cyfansoddiad ein gweithlu fesul hil yn uwch eleni, sef 13% o'i gymharu â 12.4% Y llynedd. Mae cyfansoddiad cydweithwyr BAME (du, asiaidd a lleiafrifoedd ethnig) yn ein gweithlu wedi tyfu 5.9% Dros y 5 mlynedd diwethaf.

Mae canran y cydweithwyr BAME yn y Brifysgol, sef 13%, yn agos at feincnod y DU, 14%, ac yn uwch na meincnod Cymru, 8% (Adroddiad Ystadegol Advance HE 2020).

Yr is-gategoriâu BAME mwyaf yw Asiaidd (4%) a grŵp ethnig arall (4%). Rydym yn uwch na meincnod Cymru (Adroddiad Ystadegol Advance HE 2020) ar gyfer pob is-gategori BAME

YMAWAWYR

| | | |
|-----------------|-------|------------|
| Gwyn | 74.6% | 595 |
| BAME | 14.3% | 114 |
| Anhysbys | 8.4% | 67 |
| Ddim am ddweud | 2.8% | 22 |
| Cyfanswm | | 798 |

Mae canran yr ymadawyr BAME, sef 14.3%, yn debyg i'r ganran y llynedd. Mae ychydig yn uwch na chanran y cydweithwyr BAME yn y gweithlu, sef 13% ac yn uwch na meincnod y DU ar gyfer ymadawyr BAME, 13.1% (Adroddiad Ystadegol Advance HE 2020).

RECRIWATIO

Swyddi a hysbysebwyd **645**

CEISIADAU FESUL HIL

| | | |
|----------------|-------|------|
| Gwyn | 61.6% | 4069 |
| BAME | 34.3% | 2267 |
| Ddim am ddweud | 3.2% | 213 |
| Anhysbys | 0.9% | 59 |

Ceisiadau a dderbyniwyd **6608**

CYFRADD LWYDDIANT YMGEISWYR (O FEWN EU GRŴP EU HUNAIN)

| | | |
|----------------|-------|-----|
| Anhysbys | 20.3% | 12 |
| Gwyn | 13.3% | 540 |
| Ddim am ddweud | 6.6% | 14 |
| BAME | 5.6% | 128 |

Cyfradd Lwyddiant Gyffredinol **10.5%** **694**

Mae'r gyfradd lwyddiant gyffredinol wedi gostwng o 14.4% i 10.5%. Hysbysebwyd llai o swyddi a derbyniwyd llai o geisiadau na'r llynedd. Gwelwyd gostyngiad hefyd yn nifer yr ymarferion hysbysebu a recriwtio i nifer mawr o'r un rolau ar yr un pryd.

Derbyniwyd 9.4% yn fwy o geisiadau gan ymgeiswyr BAME eleni, sy'n gynydd o 24.9% y llynedd i 34.3% eleni. Hon yw'r ganran uchaf o geisiadau gan ymgeiswyr BAME a dderbyniwyd ers i ni ddechrau casglu data fel hyn. Derbyniwyd ychydig yn llai o geisiadau gan ymgeiswyr gwyn eleni.

Mae cyfradd lwyddiant grwpiau gwyn a BAME wedi gostwng ers y llynedd. Fodd bynnag, mae'r gwahaniaeth rhwng cyfraddau llwyddiant ymgeiswyr BAME a Gwyn wedi cynyddu i 8% eleni, (o'i chymharu â 4% y llynedd) gydag 13.3% o ymgeiswyr gwyn yn llwyddo, o'i gymharu â 5.6% o ymgeiswyr BAME. Rydym wedi nodi hyn yn faes blaenoriaeth a byddwn yn canolbwyntio ar waith pellach i ddadansoddi data ac yn cymryd camau priodol er mwyn lleihau'r bwlch hwn.

HYFFORDDIANT

Cyrsiau ystafell ddosbarth a ddarparwyd **245**

HYFFORDDIANT YSTAFELL DDOSBARTH

| | | |
|-----------------|-------|-------------|
| Gwyn | 80.8% | 2171 |
| BAME | 15.7% | 423 |
| Ddim am ddweud | 2.7% | 73 |
| Anhysbys | 0.8% | 21 |
| Cyfanswm | | 2688 |

HYFFORDDIANT AR-LEIN

| | | |
|-----------------|-------|--------------|
| Gwyn | 84.5% | 9727 |
| BAME | 11.4% | 1310 |
| Anhysbys | 2.6% | 290 |
| Ddim am ddweud | 1.6% | 187 |
| Cyfanswm | | 11514 |

Hyfforddiant mewn Ystafell Ddosbarth

Darparwyd llai o gyrsiau mewn ystafell ddosbarth yn ystod y cyfnod adrodd o'i gymharu â'r llynedd (424) oherwydd effeithiau'r pandemig a gweithio gartref. Mae nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant ar-lein wedi cynyddu'n sylweddol ers y llynedd (2056), eto oherwydd y newid i weithio gartref a chyflwyno hyfforddiant ar-lein gorfodol newydd, megis y pecyn ar-lein adfer ar ôl COVID-19 a chyllid troseddol. O'r rhai a gwblhaodd hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth, nododd 15.7% eu bod o gefndir BAME, cynnydd ers y llynedd (11.1%) ac yn uwch na chanran y cydweithwyr BAME yng ngweithlu ein prifysgol. Gostyngodd y cyfranogwyr o gefndir gwyn ychydig, o 85.1% i 80.8%. Roedd y ganran o gydweithwyr a ddewisodd beidio â dweud yn debyg i'r llynedd.

Hyfforddiant Ar-lein

O'r rhai a gwblhaodd hyfforddiant ar-lein, nododd 11.4% eu bod o gefndir BAME, cynnydd bach ers canran y llynedd, 10.1%. Cynyddodd y ganran o gyfranogwyr gwyn a gwblhaodd hyfforddiant ar-lein o 82.2% i 84.5%.

CWYNION A DISGYBLU

Mae'r data am gwynion a disgyblu'n dangos nifer yr achosion yn ystod y cyfnod adrodd fesul nodwedd warchoddedig yr unigolyn.

CWYNION

| | | |
|-----------------|-------|----------|
| Ddim am ddweud | 11.0% | 1 |
| Gwyn | 89.0% | 8 |
| Cyfanswm | | 9 |

DISGYBLU

| | | |
|-----------------|-------|-----------|
| BAME | 17.0% | 2 |
| Gwyn | 83.0% | 10 |
| Cyfanswm | | 12 |

Yn ystod y cyfnod adrodd, cyflwynwyd 9 cwyn a chynhaliwyd 12 achos disgyblu.

O'r cwynion, nododd 89% (8) eu bod o gefndir Gwyn a dewisodd 11% (1) beidio â dweud.

O ran yr achosion disgyblu a gynhaliwyd, nododd 83% (10) eu bod o gefndir Gwyn a 17% (2) o gefndir BAME.

CYFANSODDIAD Y GWEITHLU

| | | |
|-----------------|-------|-------------|
| Benywod | 54.7% | 2230 |
| Gwrywod | 45.3% | 1849 |
| Cyfanswm | | 4079 |

DADANSODDIAD FESUL RHYW A GRADD

| GRADD | G | % | B | % | Cyfanswm | % |
|---------|-----|------|-----|-------|----------|-------|
| 1 | 93 | 2.2% | 180 | 4.3% | 273 | 6.5% |
| 2 | 36 | 0.9% | 18 | 0.4% | 54 | 1.3% |
| 3 | 76 | 1.8% | 94 | 2.2% | 170 | 4.0% |
| 4 | 44 | 1.0% | 143 | 3.4% | 187 | 4.4% |
| 5 | 102 | 2.4% | 212 | 5.0% | 314 | 7.4% |
| 6 | 98 | 2.3% | 212 | 5.0% | 310 | 7.3% |
| 7 | 310 | 7.3% | 407 | 9.6% | 717 | 16.9% |
| 8 | 400 | 9.5% | 513 | 12.1% | 913 | 21.6% |
| 9 | 297 | 7.0% | 300 | 7.1% | 597 | 14.1% |
| 10, 10a | 202 | 4.8% | 136 | 3.2% | 338 | 8.0% |
| 11 | 188 | 4.4% | 65 | 1.5% | 253 | 5.9% |
| Y GIG | 29 | 0.7% | 31 | 0.7% | 60 | 1.4% |
| TC* | 12 | 0.3% | 37 | 0.9% | 49 | 1.2% |

*Tiwtor Cysylltiol

Mae canran y cydweithwyr benywaidd yn agos at feincnod y DU, 54.6%. Mae canran y cydweithwyr gwrywaidd wedi cynyddu 1.3% ac mae'n agos at feincnod y DU, 45.4% (Adroddiad Ystadegol Advance HE 2020). Benywod yw 40.5% o'r holl gydweithwyr academiaidd (gan gynnwys clinigol, ymchwil a thiwtoriadaid), sydd ychydig yn uwch na'r ganran y llynedd, 39.6%. Benywod yw 24.2% o'r Athrawon (ar 31.3.21), cynnydd o 11% ers 2012. Mae hyn yn agos at feincnod sefydliadau addysg uwch y DU, 26.7% (Adroddiad Ystadegol Advance HE 2020).

Mae 63% o'n staff benywaidd mewn rolau gwasanaeth proffesiynol, o'i chymharu â'r ganran ar gyfer gwrywod, sef 37%.

Gradd 8 o hyd yw'r radd sydd â'r ganran uchaf o gydweithwyr, sy'n wir am fenywod (12.1%) a gwrywod (9.5%).

RECRIWTIO

Swyddi a hysbysebwyd **645**

CEISIADAU FESUL RHYW

| | | |
|----------------|-------|------|
| Gwrywod | 51.7% | 3414 |
| Benywod | 46.3% | 3059 |
| Ddim am ddweud | 1.1% | 70 |
| Anhysbys | 0.9% | 59 |
| Arall | 0.1% | 6 |

Ceisiadau a dderbyniwyd **6608**

CYFRADD LWYDDIANT YMGEISWYR (O FEWN EU GRŴP EU HUNAIN)

| | | |
|--------------------------------------|--------------|------------|
| Arall | 50% | 3 |
| Anhysbys | 20.3% | 12 |
| Benywod | 12.1% | 370 |
| Gwrywod | 8.9% | 305 |
| Ddim am ddweud | 5.7% | 4 |
| Cyfradd Lwyddiant Gyffredinol | 10.5% | 694 |

Mae cyfradd lwyddiant gyffredinol ymgeiswyr wedi gostwng o 14.4% i 10.5%. Hysbysebwyd llai o swyddi a derbyniwyd llai o geisiadau na'r llynedd. Gwelwyd gostyngiad hefyd yn nifer yr ymarferion hysbysebu a recriwtio i'r un rolau ar yr un pryd o'i gymharu â'r llynedd.

Roedd 46.3% o'r ceisiadau a dderbyniwyd gan fenywod, sy'n ostyngiad o 5.8% ers y llynedd. Roedd 51.7% o'r ceisiadau a dderbyniwyd gan wrywod sy'n gynydd o 7.4% ers y llynedd.

Mae ymgeiswyr benywaidd yn fwy llwyddiannus (12.1%) nag ymgeiswyr gwrywaidd (8.9%).

YMADAWYR

| | | |
|-----------------|-------|------------|
| Benywod | 56.8% | 453 |
| Gwrywod | 43.2% | 345 |
| Cyfanswm | | 798 |

Mae canran yr ymadawyr benywaidd yn uwch na meincnod y DU, sef 45.7%, ond yn unol â chanran cydweithwyr benywaidd yn y gweithlu. Mae'r gyfradd ar gyfer ymadawyr gwrywaidd yn is na'r meincnod o 54.3% ond yn unol â chanran y cydweithwyr gwrywaidd yng ngweithlu'r prifysgolion (Adroddiad Ystadegol Advance HE 2020).

HYFFORDDIANT

Cyrsiau ystafell ddosbarth a ddarparwyd 245

HYFFORDDIANT YSTAFELL DDOSBARTH

| | | |
|-----------------|-------|-------------|
| Benywod | 59.6% | 1602 |
| Gwrywod | 40.4% | 1086 |
| Cyfanswm | | 2688 |

HYFFORDDIANT AR-LEIN

| | | |
|-----------------|-------|--------------|
| Benywod | 56.4% | 6491 |
| Gwrywod | 43.6% | 5023 |
| Cyfanswm | | 11514 |

Darparwyd llai o gyrsiau mewn ystafell ddosbarth yn ystod y cyfnod adrodd o'i gymharu â'r llynedd (424) oherwydd effeithiau'r pandemig a gweithio gartref. Mae nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant ar-lein wedi cynyddu'n sylweddol ers y llynedd (2056) eto oherwydd y newid i weithio gartref a chyflwyno hyfforddiant ar-lein gorfodol newydd megis y pecyn ar-lein adfer ar ôl COVID-19 a chyllid troseddol.

Gwelwyd cynnydd yng nghanran y gwrywod sy'n cwblhau hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth, 4.8%, a hyfforddiant ar-lein, 4%, ers y llynedd. Gwelwyd gostyngiad yn y benywod sy'n cwblhau hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth, 3.8%, a hyfforddiant ar-lein, 4%, ers y llynedd sy'n golygu cydbwysedd mwy cyfartal rhwng y rhywiau.

CYFLOGAU'R RHYWIAU

| | |
|----------|-------|
| Cymedr | 18.4% |
| Canolrif | 11.1% |

Data ciplun yw hwn ar 31 Mawrth 2020, fel y'i hadroddwyd i Gov.uk

Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yw'r gwahaniaeth ar ffurf canran o ran y cyflog cyfartalog rhwng dynion a menywod. Mae hyn yn wahanol i gyflog cyfartal sy'n cymharu cyflog dynion a menywod sy'n gwneud yr un swydd.

Caiff y bwlch ei gyfrifo mewn dwy ffordd; y cyfartaledd cymedrig yw cyfanswm yr holl gyflogau wedi'i rannu â nifer y cydweithwyr; y cyfartaledd canolrifol yw'r cyflog canol, wrth eu trefnu o'r isaf i'r uchaf.

Gwnaethom gyhoeddi ein ffigurau ar gyfer y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gov.uk ym mis Mawrth. Mae rhagor o fanylion ar gael ar ein [gwefan](#).

Y prif reswm dros ein bwlch yw'r anghydbwysedd rhwng y cydweithwyr gwrywaidd a benywaidd sy'n gweithio ar wahanol lefelau; mae mwy o gydweithwyr gwrywaidd yn gweithio mewn rolau uwch; mae mwy o gydweithwyr benywaidd yn gweithio mewn rolau ar raddau is na chydweithwyr gwrywaidd. Rydym yn falch o nodi bod y bwlch yn y ganran gymedrig wedi gostwng 1% dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r canolrif wedi gostwng 2.6%.

MATH O GONTRACT

AMSER LLAWN

| | | |
|-----------------|-------|-------------|
| Benywod | 47.3% | 1379 |
| Gwrywod | 52.7% | 1535 |
| Cyfanswm | | 2914 |

RHAN-AMSER

| | | |
|-----------------|-------|-------------|
| Benywod | 73.4% | 969 |
| Gwrywod | 26.6% | 352 |
| Cyfanswm | | 1321 |

PARHAOL

| | | |
|-----------------|-------|-------------|
| Benywod | 54.4% | 1531 |
| Gwrywod | 45.6% | 1284 |
| Cyfanswm | | 2815 |

CYNFOD PENODOL

| | | |
|-----------------|-------|-------------|
| Benywod | 57.5% | 817 |
| Gwrywod | 42.5% | 603 |
| Cyfanswm | | 1420 |

Mae canrannau'r cydweithwyr gwrywaidd a benywaidd sy'n gweithio ar gontractau amser llawn yn debyg i ffigurau'r llynedd.

Mae'r data'n dangos bod nifer sylweddol uwch o fenywod yn gweithio ar sail ran-amser. O'r holl gydweithwyr benywaidd, mae 43% yn gweithio'n rhan-amser ac mae 19% o'r holl gydweithwyr gwrywaidd yn gweithio'n rhan-amser.

Mae canrannau'r cydweithwyr, fesul rhyw, ar gontractau parhaol yn debyg i'r llynedd. O'r holl gydweithwyr benywaidd, mae contractau cyfnod penodol gan 35% ohonynt ac mae contractau cyfnod penodol gan 32% o'r holl gydweithwyr gwrywaidd.

O'r rhai ar gontract cyfnod penodol, dynion yw 42.5% ohonynt a menywod yw 57.5%.

CWYNION A DISGYBLU

Mae'r data am gwynion a disgyblu'n dangos nifer yr achosion yn ystod y cyfnod adrodd fesul nodwedd warchoddedig yr unigolyn.

CWYNION

| | | |
|-----------------|-----|----------|
| Benywod | 67% | 6 |
| Gwrywod | 33% | 3 |
| Cyfanswm | | 9 |

DISGYBLU

| | | |
|-----------------|-----|-----------|
| Benywod | 33% | 4 |
| Gwrywod | 66% | 8 |
| Cyfanswm | | 12 |

Yn ystod y cyfnod adrodd, cyflwynwyd 9 cwyn a chynhaliwyd 12 achos disgyblu.

Cyflwynwyd 67% (6) o'r cwynion gan fenywod a 33% (3) gan wrywod.

O ran yr achosion disgyblu a gynhaliwyd, roedd 67% (8) yn wrywod a 33% (4) yn fenywod.

Crefydd a Chred

CYFANSODDIAD Y GWEITHLU

| | | |
|------------------------|-------|-------------|
| Dim crefydd | 40.2% | 1639 |
| Ddim am ddweud | 26.2% | 1070 |
| Cristnogaeth | 24.6% | 1002 |
| Anhysbys | 2.6% | 108 |
| Islam | 2.2% | 90 |
| Ysbrydegaeth | 1.5% | 62 |
| Crefydd neu gred arall | 1.0% | 39 |
| Hindŵaeth | 0.8% | 34 |
| Bwdhaeth | 0.6% | 26 |
| Iddewiaeth, Siciaeth | 0.2% | 9 |
| Cyfanswm | | 4079 |

Cydweithwyr a ddatganodd nad oes crefydd ganddynt yw'r grŵp mwyaf ym Mhrifysgol Abertawe, sef 40.2%. Y ganran uchaf nesaf yw'r rhai sy'n dewis peidio â dweud, sef 26.2%. Nid yw trefn y grwpiau crefydd a chred eraill wedi newid ers y llynedd.

Mae grŵp y cydweithwyr a ddewisodd beidio â rhannu eu crefydd neu eu cred wedi lleihau ychydig, unwaith eto, o 28.6% y llynedd i 26.2% eleni, sy'n awgrymu hyder cynyddol wrth ddatgelu'r wybodaeth hon.

Mae canran y cydweithwyr sy'n Gristnogion (24.6%) yn sylweddol uwch na meincnod y DU, sef 17.7%. Mae canran y cydweithwyr Mwslimaidd, sef 2.2%, hefyd yn uwch na meincnod y DU, 1.6% (Adroddiad Ystadegol Advance HE 2020).

YMADAWYR

| | | |
|------------------------|-------|------------|
| Dim crefydd | 34.8% | 278 |
| Ddim am ddweud | 26.4% | 211 |
| Cristnogaeth | 23.8% | 190 |
| Anhysbys | 9.0% | 72 |
| Islam | 2.5% | 20 |
| Bwdhaeth | 1.0% | 8 |
| Hindŵaeth | 1.0% | 8 |
| Ysbrydegaeth | 0.8% | 6 |
| Crefydd neu gred arall | 0.5% | 4 |
| Iddewiaeth | 0.1% | 1 |
| Cyfanswm | | 798 |

Mae 34.8% o ymadawyr yn dweud nad oes crefydd ganddynt, sy'n is na'r ganran yn y gweithlu, 40.2%. Yr ail ganran uchaf o ymadawyr oedd y grŵp a ddewisodd beidio â dweud, sy'n debyg i ganran y grŵp hwn yn y gweithlu, sef 26.2%

Crefydd a Chred

RECRIWTIO

Swyddi a hysbysebwyd **645**

CEISIADAU FESUL CREFYDD A CHRED

| | | |
|------------------------|-------|------|
| Dim crefydd | 43.9% | 2902 |
| Cristnogaeth | 25.2% | 1665 |
| Islam | 11.0% | 730 |
| Ddim am ddweud | 8.0% | 529 |
| Hindŵaeth | 5.5% | 362 |
| Ysbrydegaeth | 2.3% | 154 |
| Bwdhaeth | 1.4% | 94 |
| Crefydd neu gred arall | 1.4% | 91 |
| Anhysbys | 0.9% | 59 |
| Iddewiaeth | 0.2% | 13 |
| Siciaeth | 0.1% | 9 |

Ceisiadau a dderbyniwyd 6608

CYFRADD LWYDDIANT YMGEISWYR (O FEWN EU GRŴP EU HUNAIN)

| | | |
|------------------------|--------------|------------|
| Anhysbys | 20.3% | 12 |
| Dim crefydd | 12.9% | 375 |
| Ddim am ddweud | 12.7% | 67 |
| Cristnogaeth | 10.1% | 168 |
| Crefydd neu gred arall | 9.9% | 9 |
| Bwdhaeth | 9.6% | 9 |
| Iddewiaeth | 7.7% | 1 |
| Ysbrydegaeth | 6.5% | 10 |
| Islam | 4.4% | 32 |
| Hindŵaeth | 3.0% | 11 |
| Cyfanswm | 10.5% | 694 |

Mae'r gyfradd lwyddiant gyffredinol wedi gostwng o 14.4% i 10.5%. Mae nifer y swyddi a hysbysebwyd a nifer y ceisiadau a dderbyniwyd yn is na'r llynedd. Gwelwyd gostyngiad hefyd yn nifer yr ymarferion hysbysebu a recriwtio i nifer mawr o'r un rolau ar yr un pryd o'i gymharu â'r llynedd

Mae canran uchaf yr ymgeiswyr yr un peth â'r llynedd; Dim crefydd, 43.9% a Christnogaeth, 25.2%.

Mae canran yr ymgeiswyr Mwslimaidd a Hindŵaidd wedi cynyddu hefyd, o 7.6% i 11% ac o 2.9% i 5.5% yn y drefn honno.

O'r ymgeiswyr a ddatgelodd eu crefydd a'u cred, gwelwyd y gyfradd lwyddiant uchaf ar gyfer ymgeiswyr heb grefydd. Fodd bynnag, heb grefydd, 12.9%. Fodd bynnag, mae hyn wedi gostwng 2.4% ers y llynedd.

Crefydd a Chred

HYFFORDDIANT

Cyrsiau ystafell ddosbarth a ddarparwyd **245**

HYFFORDDIANT YSTAFELL DDOSBARTH

| | | |
|------------------------|-------|------|
| Dim crefydd | 42.6% | 1144 |
| Ddim am ddweud | 24.6% | 662 |
| Cristnogaeth | 24.5% | 659 |
| Islam | 2.5% | 67 |
| Ysbrydegaeth | 1.9% | 50 |
| Hindŵaeth | 1.6% | 42 |
| Anhysbys | 0.9% | 24 |
| Crefydd neu gred arall | 0.8% | 21 |
| Bwdhaeth | 0.4% | 12 |
| Iddewiaeth | 0.3% | 7 |

Cyfanswm **2688**

HYFFORDDIANT AR-LEIN

| | | |
|------------------------|-------|------|
| Dim crefydd | 43.8% | 5042 |
| Cristnogaeth | 25.6% | 2946 |
| Ddim am ddweud | 22.7% | 2616 |
| Islam | 2.1% | 240 |
| Anhysbys | 2.0% | 234 |
| Ysbrydegaeth | 1.5% | 176 |
| Crefydd neu gred arall | 0.8% | 93 |
| Hindŵaeth | 0.6% | 72 |
| Bwdhaeth | 0.6% | 71 |
| Iddewiaeth | 0.2% | 20 |
| Siciaeth | <0.1% | 4 |

Cyfanswm **11514**

Hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth

Darparwyd llai o gyrsiau mewn ystafell ddosbarth yn y cyfnod adrodd na'r llynedd (424) oherwydd effeithiau'r pandemig a gweithio gartref. Mae nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant ar-lein wedi cynyddu'n sylweddol ers y llynedd (2056), eto oherwydd y newid i weithio gartref a chyflwyno cyrsiau hyfforddiant ar-lein gorfodol newydd, megis y pecyn ar-lein adfer ar ôl COVID-19 a chyllid troseddol.

Dywedodd 42.6% o'r cydweithwyr a gwblhaodd hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth nad oedd crefydd ganddynt, a'r ganran uchaf nesaf oedd y rhai a ddewisodd beidio â dweud, sef 24.6%; y drydedd ganran uchaf oedd y rhai a dywedodd eu bod yn Gristnogion, sef 24.5%.

Hyfforddiant ar-lein

Dywedodd 43.8% o'r cydweithwyr a gwblhaodd hyfforddiant ar-lein nad oedd crefydd ganddynt, a'r ganran nesaf oedd Cristnogion, sef 25.6%; y drydedd ganran uchaf oedd y rhai a ddewisodd beidio â dweud, 22.7%.

Crefydd a Chred

CWYNION A DISGYBLU

Mae'r data am gwynion a disgyblu'n dangos nifer yr achosion yn ystod y cyfnod adrodd fesul nodwedd warchoddedig yr unigolyn.

CWYNION

| | | |
|-----------------|-----|----------|
| Cristnogaeth | 33% | 3 |
| Dim crefydd | 33% | 3 |
| Ddim am ddweud | 33% | 3 |
| Cyfanswm | | 9 |

DISGYBLU

| | | |
|-----------------|-----|-----------|
| Cristnogaeth | 8% | 1 |
| Islam | 17% | 2 |
| Dim crefydd | 25% | 3 |
| Ddim am ddweud | 50% | 6 |
| Cyfanswm | | 12 |

Yn ystod y cyfnod adrodd, cyflwynwyd 9 cwyn a chynhaliwyd 12 achos disgyblu.

O'r cwynion, nododd 33% (3) o'r achwynwyr eu bod yn Gristnogion, doedd dim crefydd gan 33% (3) a dewisodd 33% (3) beidio â dweud.

O ran yr achosion disgyblu a gynhaliwyd, dewisodd 50% (6) beidio â dweud, doedd dim crefydd gan 25% (3), nododd 17% (2) eu bod yn Fwslimaidd ac 8% (1) eu bod yn Gristnogion.

